Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 6 Hydref 2011**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
02920898597
FinanceCommittee@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2012-2013 (9:35-10:30) (Tudalennau 1 - 29)

**Comisiwn y Cynulliad**
FIN(4)-04-11 (Papur1)

Angela Burns, Aelod Cynulliad
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Swyddogion (i'w cadarnhau)
Steve O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

### 3. Craffu ar amcangyfrifon drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (10:30-11:25) (Tudalennau 30 - 37)

FIN(4)-04-11 (Papur 2)
Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu
Malcolm MacDonald, Cynghorydd Ariannol

**Papur i'w nodi**
Estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau olaf o fusnes yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi).

## 4. Aelodau yn ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod (11:25-11:40)

## 5. Adroddiad drafft ar gynnig Llywodraeth Cymru i newid cynnig cyllideb drafft 2012-2013 (11:40-12:00) (Tudalennau 38 - 60)

**Papurau i'w nodi**
FIN(4)-03-11 Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 28 Medi 2011

Blaenraglen waith

Eitem 2

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2012–13

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk
T 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad
2012–13

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2012-13**

## Cynnwys

Y Pedwerydd Cynulliad ..... 2
Cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ..... 7
Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru ..... 9
Defnyddio adnoddau'n ddoeth ..... 11
Crynodeb Ariannol – Adnoddau Comisiwn y Cynulliad ..... 14
Y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyflogau a chostau eraill yr Aelodau 19
Cwmpas cyllideb Comisiwn y Cynulliad ..... 23

## Y Pedwerydd Cynulliad

**Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2011 – 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu’r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy’n darparu’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**Nodau strategol y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yw:**

- **Darparu cefnogaeth seneddol o’r radd flaenaf**
  Mae’r Cynulliad mewn sefyllfa gyfansoddiadol newydd, a byddwn yn cynnig cefnogaeth briodol i alluogi Aelodau’r Cynulliad i gynrychioli Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

- **Ymgysylltu â phobl Cymru**
  Byddwn yn creu amgylchedd sy’n annog diddordeb yng ngwaith y Cynulliad ac sy’n hwyluso pobl i ymgysylltu â swyddogaethau deddfu, craffu a chynrychioli'r Cynulliad. Byddwn yn ymgysylltu’n frwd ac eang, ac yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael budd o’r egni creadigol sy’n deillio o’r ymgysylltiad hwnnw.

- **Hyrwyddo Cymru**
  Drwy weithio fel llysgennad i Gymru dros y byd, byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, a chwarae ein rhan yn natblygiad democratiaeth seneddol mewn gwledydd eraill dros y byd.

- **Defnyddio adnoddau’n ddoeth**
  Byddwn yn gwneud y buddsoddiadau angenrheidiol i sicrhau bod gan y Cynulliad yr adnoddau llawn i weithredu’n effeithiol fel senedd sydd â phwerau deddfu newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn atgyfnerthu hyder Aelodau’r Cynulliad yn y ffordd y byddwn yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau drwy wneud defnydd da o arian y trethdalwr. Byddwn yn rheoli ein hadnoddau er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd fwy effeithlon a chan gynnig gwell gwerth am arian.

Bydd y Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau yn unol ag egwyddorion statudol: gydag ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb; gydag ystyriaeth briodol i'r egwyddor o hybu datblygu cynaliadwy; a, chyn belled â'i bod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn ymarferol resymol, bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.


**Cost y Cynulliad Cenedlaethol**

Cyfanswm y gwariant cyhoeddus a gaiff ei reoli gan y Cynulliad Cenedlaethol ("Bloc Cymru") yw tua £15 biliwn. Mae'r arian hwn, bron i gyd, yn ariannu'r gost o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar sail penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Defnyddir cyfran fechan (0.3 %) i ariannu costau'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun, yn ei waith o graffu ar weithgareddau a gwariant y Llywodraeth a herio'r penderfyniadau hynny, gwneud cyfreithiau, a chynrychioli buddiannau pobl Cymru. Barn y Comisiwn yw mai dyma'r pris cywir i'w dalu am ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer deddfu, craffu ar y Llywodraeth a chynrychiolaeth ddemocrataidd.

Cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2012-13 yw £47.6 miliwn, a bydd £13.5 miliwn yn darparu'r cyllid ar gyfer cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfeydd etholaethau ym mhob rhan o Gymru. Mae £34.1 miliwn ar gyfer gwasanaethau a gaiff eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad er mwyn cynorthwyo gwaith yr Aelodau.

Mae cyflogau Aelodau'r Cynulliad wedi cael eu sefydlogi yn eu lle tan o leiaf 2014-15 a'r flwyddyn nesaf, ni fydd eu staff yn cael codiad cyflog chwaith. Yn ogystal, mae gwaith parhaus y Comisiwn i sicrhau gwerth am arian yn y Cynulliad cyfan wedi cyfrannu 2% a fydd yn cael ei ailfuddsoddi yng nghyllideb 2012-13. Dim ond ar gyfer talu unrhyw gynnydd mewn costau yr ydym yn ymrywmedig iddynt y bydd unrhyw arian ychwanegol a gaiff ei gymeradwyo'r flwyddyn nesaf yn cael ei ddefnyddio, a chryfhau'r gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn.

Mae'r graff isod yn dangos prif feysydd gwariant y Comisiwn ar gyfer 2012-13.




**Effaith gostyngiadau cyllidebau blaenorol**

Yn 2011-12, strategaeth cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar y pryd oedd lleihau ei wariant a gwneud arbedion, gan fynd y tu hwnt i'r gostyngiadau ym Mloc Cymru, mewn gwirionedd. Cafodd hyn ei gyflawni drwy ddulliau effeithlonrwydd a lleihau costau, rheoli lefelau staffio yn ofalus a lleihau nifer y staff drwy gynllun ymadael gwirfoddol, y dewisodd 25 o staff y Cynulliad fanteisio arno. Mae swyddi eraill wedi cael eu gadael yn wag ar ôl i ddeiliad y swydd ymadael, neu meant wedi cael eu dileu drwy ailstrwythuro'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Roedd yr holl ddulliau hyn o effeithlonrwydd a lleihau costau wedi galluogi'r Comisiwn i sicrhau gostyngiad mewn termau real o 6.0%[1] yn ei ofynion cyllido ar gyfer 2011-12 a oedd yn cyfateb i arbedion o £2.4 miliwn. Wrth edrych i'r dyfodol, rhagwelir y bydd penderfyniad y Bwrdd Taliadau i rewi cyflogau Aelodau'r Cynulliad, lwfansau deiliaid swyddi a chostau eraill yn arwain at arbedion o dros £2 filiwn yn ystod yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Ym mis Tachwedd 2010, pwysleisiodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad fod angen i'r Comisiwn gael yr adnoddau a'r dulliau angenrheidiol i ddarparu'r

---

[1] Wedi'i ddiweddaru o 5.1% gan dybiaethau mwyaf diweddar Trysorlys EM

gwasanaethau angenrheidiol i gynnal gwaith y Cynulliad o graffu'n effeithiol ar y Llywodraeth a gwaith arall. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch yr effaith ar allu'r Cynulliad i weithredu ar ei bwerau newydd yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth 2011.

Er bod y Cynulliad wedi gallu cynnal gwasanaeth da dros y ddwy flynedd diwethaf, mae gostyngiadau ac arbedion costau wedi cael effaith ar rai meysydd gwasanaeth a gaiff eu gwerthfawrogi ganddo. Yn ystod y flwyddyn 2012-13, bydd mwy o bwysau eto o ganlyniad i gynnydd anochel mewn costau. Byddai effaith ymgorffori'r cynnydd anochel hwn, yn ogystal â'r gostyngiadau a wnaed yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn ei gwneud yn anodd i'r Cynulliad fodloni dyheadau'r Comisiwn newydd wrth gynorthwyo Aelodau i arfer eu pwerau newydd. Ar y sail honno, mae'r Comisiwn am barhau i ganolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian cyhoeddus, ond hefyd am sicrhau bod dyheadau Cymru o ran y Cynulliad yn cael eu bodloni.

**Gofynion y Pedwerydd Cynulliad**

Yn y refferendwm ym mis Mawrth 2011, pleidleisiodd etholwyr Cymru yn bendant o blaid mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad. Bellach, gall y Cynulliad wneud deddfau ar bob pwnc yn yr 20 maes datganoledig heb orfod cael cytundeb Senedd y DU yn gyntaf.

Mae sefyllfa gyfansoddiadol newydd hon y Cynulliad yn atgyfnerthu'r angen am gefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, bydd y Comisiwn yn:

- cryfhau'r cyngor a'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael fel y bydd y gwaith o graffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn fwy treiddgar, yn fwy adeiladol ac yn fwy deallus;
- sicrhau bod gan Aelodau unigol y cymorth sydd ei angen arnynt i hyrwyddo eu cynigion eu hunain ar gyfer newid polisi a newid deddfwriaethol;
- creu amgylchedd a fydd yn galluogi'r cyhoedd yng Nghymru i gymryd mwy a mwy o ran yng ngwaith y Cynulliad, gan gynnwys y broses ddeddfwriaethol; a
- chyflawni hyn i gyd o fewn cyd-destun o wario pob punt yn ddoeth.

Caiff cyfanswm yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i gyflawni gwaith y Comisiwn yn 2012-13 a'r cyllidebau dangosol tan 2014-2015 eu crynhoi yn y Nhabl 1 isod.

Tabl 1 – Cyllidebau dangosol Comisiwn y Cynulliad £000s

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Cynulliad | 32,847 | 31,673 | 34,089 | 35,918 | 35,918 |
| Aelodau'r Cynulliad | 13,380 | 13,034 | 13,500 | 13,700 | 13,900 |
| **Cyfanswm y gyllideb sydd ei hangen** | **46,227** | **44,707** | **47,589** | **49,618** | **49,818** |
| Canran y cynnydd fesul blwyddyn | | (2.5%) | 6.4% | 4.3% | 0.4% |
| Newid termau real o waelodlin 2010-11 | | (6.0%)[2] | (2.4%)[3] | (0.9%) | (3.1%) |
| Canran o Floc Cymru | 0.3% | 0.3% | 0.3% | 0.3% | 0.3% |

*Mae angen addasiad cyfrifyddu o £0.5miliwn y flwyddyn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Ers 2010-11, caiff hyn ei ariannu ar wahân drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

[2]Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2011-12 fel y'i diweddarwyd gan dybiaethau mwyaf diweddar Trysorlys EM fel ar 28 Mehefin 2011

[3]Yn defnyddio tybiaethau Trysorlys EM 2011-12 2.9%, 2012-13 2.5%, 2013-14 2.7% a 2014-15 2.7% fel ar 28 Mehefin 2011 [fel ar 15 Medi 2011]

***Buddsoddi yn y Pedwerydd Cynulliad***

*Bydd y gyllideb yn galluogi'r Comisiwn i fuddsoddi o'r newydd yn y canlynol:*

- *arbenigwyr ymchwil mewn meysydd polisi allweddol a chyllid gyhoeddus;*
- *cymorth i bwyllgorau, gan gynnwys mynediad at gyngor arbenigol allanol a gweithio y tu allan i Fae Caerdydd i lywio ymchwiliadau;*
- *ehangu gwasanaeth cyfreithiol y Comisiwn i ymateb i'r galw; a*
- *sgiliau seneddol proffesiynol yr Aelodau a'r staff.*

## Cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

Rhaid i senedd effeithiol gael staff a gwasanaethau cefnogol arbenigol ac o'r radd flaenaf. Gydag ond 60 Aelod, yn gweithredu mewn amgylchedd dwyieithog, mae'r cymorth hwnnw yn hanfodol bwysig os mai nod y Cynulliad yw bodloni disgwyliadau pobl Cymru i gynrychioli eu buddiannau, craffu ar weithgareddau a gwariant Llywodraeth Cymru a gwneud deddfau da. Mae cymorth o ansawdd o'r fath eisoes ar gael i'r Cynulliad a dros y bum mlynedd nesaf, bydd y Comisiwn yn cryfhau hynny ymhellach fyth.

Bydd anghenion penodol yn dod yn amlwg dros y blynyddoedd nesaf wrth i raglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth dyfu ac wrth i flaenoriaethau'r Aelodau esblygu. Yn y dyfodol agos, byddwn yn cryfhau'r cymorth yn y meysydd a ragwelwn eisoes lle bydd mwy o alw. Yn y Gwasanaeth Ymchwil, byddwn yn penodi arbenigwyr mewn meysydd polisi allweddol a chyllid cyhoeddus. Yna, bydd y gefnogaeth a ddarperir gennym, er enghraifft, er gyfer gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid yn cael ei fireinio, gyda chymorth penodol i ddarparu'r dadansoddiad a'r cyngor angenrheidiol. Bydd mwy o gapasiti ymchwil hefyd yn cynorthwyo'r Aelodau wrth iddynt graffu ar rai o'r blaenoriaethau newydd sy'n gysylltiedig â phwerau'r Cynulliad ar ôl y refferendwm, er enghraifft ceisiadau gan Senedd y DU am gytundeb i ddeddfu mewn meysydd datganoledig neu asesiad a dadansoddiad ôl ddeddfwriaeth.

Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn sicrhau bod adnoddau ar gael i gael gafael ar arbenigedd allanol fel y gall pwyllgorau fanteisio ar gyngor arbenigol gorau posibl yn ystod eu hymchwiliadau.

Bydd strwythur newydd y pwyllgorau yn caniatáu i'r pwyllgorau hynny fod yn fwy hyblyg yn y ffordd

maent yn ymdrin â'r hyn sydd, bellach, yn gylchoedd gwaith eang a heriol. Bydd y Comisiwn yn sicrhau y gall y pwyllgorau weithio y tu hwnt i furiau Bae Caerdydd er mwyn gwella eu cysylltiadau â'r rhai y mae polisi cyhoeddus yn effeithio arnynt a llywio eu hymchwiliadau wrth wneud hynny.

Bydd pwerau newydd y Cynulliad i wneud cyfreithiau ym mhob agwedd ar y meysydd datganoledig yn arwain at raglen ddeddfwriaethol fwy cynhwysfawr ac uchelgeisiol. Bydd mwy o alw am gyngor cyfreithiol, gweithdrefnol ac ymchwil, yn deillio o nifer a chymhlethdod deddfwriaeth y Cynulliad. Er bod llawer o'r cymorth hwnnw yn canolbwyntio ar roi'r modd i'r Aelodau graffu ar filiau'r Llywodraeth, bydd y Comisiwn hefyd yn sicrhau bod cefnogaeth seneddol debyg ar gael i Aelodau unigol a phwyllgorau a fydd am ddatblygu a hyrwyddo eu cynigion deddfwriaethol eu hunain.

Dim ond os bydd cymorth cyfreithiol arbenigol mewn cysylltiad â chyfraith Ewropeaidd ar gael y bydd y Cynulliad yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfleodd y mae seneddau, gan gynnwys deddfwrfeydd datganoledig, wedi eu cael o dan Gytundeb Lisbon mewn cysylltiad â materion yn ymwneud â sybsidiaredd. Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod y cymorth cyfreithiol angenrheidiol a'r capasiti drafftio deddfwriaethol ar gael i ymateb i'r heriau hyn pan fydd angen.

Mae gan y cyhoedd yng Nghymru ddisgwyliadau uchel o ran y cyfraniad y bydd Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud i wella bywyd cyhoeddus. Mae gwaith craffu seneddol effeithiol yn golygu bod angen i'r Aelodau dynnu sylw at weithgareddau'r llywodraeth, herio syniadau, cyflwyno syniadau eraill a gwella penderfyniadau drwy wneud hynny. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i fodloni'r gofynion hynny, bydd y Comisiwn yn cynnig cyfleoedd i'r Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad gael gafael ar weithgarwch datblygiad proffesiynol a fydd yn diwallu eu hanghenion mewn meysydd fel cwestiynu'n effeithiol, dadansoddi tystiolaeth ac arfer gorau rhyngwladol o ran gwaith craffu seneddol. Drwy'r pecyn hwn o ddatblygiadau, bwriad y Comisiwn yw sicrhau bod gan yr Aelodau hefyd fynediad at gyngor arbenigol, y gallu dadansoddol a'r cymorth cyflenwol sydd ei angen arnynt i ddarparu'r amcanion hynny a sicrhau cynrychiolaeth ragorol ar ran pobl Cymru.

***Buddsoddi yn y Pedwerydd Cynulliad***

*Bydd y gyllideb yn galluogi'r Comisiwn i fuddsoddi o'r newydd yn y canlynol:*

- *e-ddemocratiaeth arloesol;*
- *ymgysylltu'n ehangach â phobl ar draws Cymru;*
- *gweithgareddau pellach ag ysgolion a phobl ifanc;*
- *mynediad i'r Aelodau at ystyriaethau perthnasol, arbenigol; a*
- *dulliau cost effeithiol o ddarparu gwell gwasanaethau dwyieithog.*

## Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Rhaid i senedd effeithiol hefyd ledaenu ymwybyddiaeth o'i gwaith, ei chynnydd a'i pherthnasedd er mwyn annog mwy o ymgysylltiad â'r cyhoedd.

Bydd y Comisiwn yn adeiladu ar gefndir cadarn y Cynulliad ym maes addysg, e-ddemocratiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddatblygu mentrau arloesol ac enghreifftiol. Mae'r adran hon yn disgrifio enghreifftiau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid arbenigol er mwyn gwreiddio'r defnydd o dechnoleg newydd ac eginol i hyrwyddo gwaith y Cynulliad a sicrhau ein bod yn arloesi ym maes e-ddemocratiaeth. Gan gadw mewn cof y newidiadau sylweddol yn nhirlun cyfryngau Cymru, byddwn yn gweithio'n agos â chyfryngau rhanbarthol yng Nghymru i hyrwyddo gwaith y Cynulliad, ond hefyd i godi ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad mewn cyfryngau arbenigol a chyfryngau'r DU. Byddwn yn gwella ar y modd rydym yn monitro ein llwyddiant yn y maes hwn.

Bydd gwaith allgymorth ac addysg y Cynulliad yn hysbysu cymunedau ym mhob cwr o Gymru o waith y Cynulliad. Er mwyn gwella'r gwasanaeth hwn, byddwn yn cynnal rhagor o seminarau, cynadleddau a gweithdai i hyrwyddo ac annog pawb i gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgorau ac ymchwiliadau.

Byddwn yn ystyried ein darpariaeth o wasanaethau darlledu er mwyn sefydlu ffordd o sicrhau arbedion a allai gael eu defnyddio i ddarlledu amrywiaeth ehangach o

weithgareddau'r Cynulliad, gan gynnwys y rhai a gaiff eu cynnal y tu allan i'r Senedd.

Byddwn yn hyrwyddo gwaith y Cynulliad drwy gynorthwyo'r Aelodau i gynnal digwyddiadau ar yr ystâd a datblygu ein rhaglen o ddigwyddiadau corfforaethol a'n presenoldeb mewn sioeau cenedlaethol a rhanbarthol, gan gydweithio'n agos â phartneriaid fel Llywodraeth Cymru a'r cyfryngau i hyrwyddo Cymru.

Mae gan ein rhaglen waith gydag ysgolion ac eraill yn y sector addysg enw da. Byddai'n bosibl ehangu hyn a'i wella drwy gydweithio'n agosach â'r Ddraig Ffynci, cynghorau ysgolion, Llywodraeth Cymru ac eraill. Byddwn hefyd yn ystyried sut i gynnwys ysgolion a chymunedau nad ydynt wedi gweithio gyda'r Cynulliad yn y gorffennol. Defnyddir bws y Cynulliad fel adnodd symudol er mwyn eu hannog i gymryd rhan.

Byddwn yn datblygu ein perthynas â Chanolfan Llywodraethiant Cymru, cyrff anllywodraethol ac amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau i sicrhau bod modd i'r Aelodau gael gafael ar arbenigedd a ffyrdd o feddwl sy'n berthnasol i'n meysydd polisi datganoledig ni.

Byddwn yn datblygu ein gwasanaethau dwyieithog yn unol â'r egwyddorion a nodwyd gan y Comisiwn yn y Bil Ieithoedd Swyddogol arfaethedig a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft. Byddwn yn cwblhau ein gwaith o ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio meddalwedd TG a dulliau electronig o gyfieithu ar gyfer anghenion cyfieithu'r Cynulliad, gyda'r nod o gynnig ystod ehangach o wasanaethau a gwell gwerth am arian.

Ar y llwyfan rhyngwladol, nod y Cynulliad fydd ceisio ennill a rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion seneddol rhyngwladol da. Byddai modd cysylltu hyn â datblygiad sefydliadau democrataidd mewn rhannau eraill o'r byd, lle y gall y Cynulliad wneud cyfraniad cadarnhaol, ond lle y gall ddysgu hefyd. Byddai ymgysylltu â seneddau eraill, beth bynnag fo'u datblygiad, yn werthfawr i bawb.

***Buddsoddi yn y Pedwerydd Cynulliad***

*Bydd y gyllideb yn galluogi'r Cynulliad i fuddsoddi o'r newydd yn y canlynol:*

- *systemau i atal dyblygu gwaith y swyddfeydd cefn; gwella cywirdeb a lleihau gorbenion;*
- *cynaliadwyedd Tŷ Hywel, i wneud iddo ddefnyddio llai o garbon;*
- *cynllun lleoli i brentisiaid a graddedigion, gwella cyfleoedd ar bob lefel i'r rhai sydd am weithio yn y Cynulliad;*
- *rhaglen newydd i ehangu cyfranogiad mewn gwleidyddiaeth a democratiaeth; a*
- *datblygu gwasanaeth cymorth proffesiynol cynhwysfawr ehangach i'r Aelodau.*

## Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Rhaid i bobl Cymru fod yn hyderus bod yr arian a gaiff ei wario ar wasanaethau'r Cynulliad yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl. Mae'r Comisiwn am ddangos effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cynulliad a llwyddiant y canlyniadau a gawn o'r arian a gawn.

### Buddsoddi er mwyn arbed

Rhaid i ni adnewyddu a newid y systemau sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau cywir a diogel. Byddwn yn gwneud arbedion drwy symleiddio prosesau, defnyddio systemau i newid gweithgareddau diangen ac ychwanegu gwerth at yr hyn rydym eisoes yn ei gyflawni'n dda.

Cafodd y gwaith ar Rwydwaith TGCh Unedig (UNO) y Cynulliad ei gynnal yn bennaf yn ystod 2010-11, a'i ddiben oedd darparu seilwaith a model o wasanaethau TG a fyddai'n gallu cael ei lywio gan anghenion, blaenoriaethau a strategaethau'r Cynulliad am ei fod yn cynnig llwyfan annibynnol, ynghyd a'r llwyfan TG mwyaf diweddar. Mae hyn yn galluogi'r Cynulliad i wneud penderfyniadau am ddyfodol TGCh yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae'n gyfle i weithio'n fwy arloesol i ddarparu arferion gweithio gwell. Wrth wneud y gwaith hwn yn 2010-11 fel prosiect unigol, arbedodd y Comisiwn tua £0.9 miliwn (20%) mewn costau a fyddai, fel arall, wedi gorfod cael eu talu wrth adnewyddu a diweddaru ein systemau.

### Cynaliadwyedd

Rhaid i gorff seneddol enghreifftiol arwain drwy esiampl wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol i weithio'n gynaliadwy. Pennodd y Comisiwn darged iddo'i hun o leihau allyriadau carbon yr ystâd 40% erbyn 2015. Yn ystod dwy flynedd

gyntaf ein strategaeth, erbyn mis Ebrill 2011, sicrhawyd gostyngiad o 19% mewn allyriadau ynni. Er gwaethaf costau cynyddol, arbedodd hyn tua £100,000 dros ddwy flynedd. Byddwn yn parhau i fuddsoddi er mwyn cynnal y cynnydd hwn a pharhau i reoli ein gwariant ar gostau ynni.

**Cyfle Cyfartal**

Rydym am i hygyrchedd i ystâd y Cynulliad a'i ddeunyddiau cyfathrebu fod y gorau posibl, er mwyn rhoi hyd yn oed fwy o gyfleoedd i amrywiaeth ehangach o bobl ganfod beth mae'r Cynulliad yn ei wneud, cymryd rhan yn y drafodaeth a helpu'r Cynulliad i wneud penderfyniadau da.

Rydym am wella ein gallu i ddenu amrywiaeth eang o bobl i weithio yn y Cynulliad.

**Ystâd y Cynulliad**

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio ein hadeiladau nodweddol i ddenu mwy o bobl a digwyddiadau. Pan fydd yn briodol, byddwn yn cynhyrchu incwm, gan fuddsoddi mewn gwelliannau i'n helpu i gyflawni hyn. Bydd hyn yn caniatáu i gyfleusterau'r Cynulliad gael eu defnyddio mewn ffyrdd newydd a fydd yn cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth a chreu perchnogaeth o'r sefydliad. Er enghraifft, byddai diweddaru ceginau'r Pierhead yn caniatáu ar gyfer defnydd mwy masnachol pan na fydd angen i'r Cynulliad ddefnyddio'r cyfleusterau hynny, a gallai roi cyfle i gyrff y trydydd sector a chwmnïau llai yng Nghymru arddangos eu cryfderau am bris rhesymol.

**Caffael a rheoli contractau**

Rydym yn cryfhau ein tîm caffael a byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyflwyno ein cyfleoedd i weithio gyda'r Cynulliad, gan lywio cynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhyrchu lleol a helpu i dyfu capasiti'r farchnad yng Nghymru lle mae hynny'n bosibl. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau gwerth am arian, yn arbennig yn y ffordd rydym yn rheoli contractau, a byddwn yn buddsoddi ymhellach yn y sgiliau sydd eu hangen arnom.

Bellach, mae gan y Cynulliad lwyfan TGCh sy'n annibynnol ar y llywodraeth a dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau TGCh, gan ychwanegu mwy o hyblygrwydd er mwyn addasu ein gwasanaethau i anghenion unigol a chaniatáu mwy o ymreolaeth. Dylai hyn gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer mentrau bach a rhai mwy lleol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni fuddsoddi mewn sgiliau, yn fewnol ac yn allanol, er mai ein nod fydd sicrhau arbedion a gwneud gwell defnydd o

adnoddau er mwyn gwneud iawn am rai o’r costau hyn. Os mai nod y Cynulliad yw bod yn y sefyllfa orau i gadw ei enw da am ddefnyddio technoleg flaengar yn greadigol, rhaid i ni fod yn barod i wneud penderfyniadau ynghylch y prif gontract TGCh a fydd yn dod i ben yn 2014.

**Adeiladu mwy o gapasiti mewn deddfwrfa fach**


Rhaid i’r Cynulliad ddarparu i’w lawn allu ar gyfer ei 60 o Aelodau. Er mwyn cefnogi’r Aelodau a’u galluogi i weithredu i’w cryfderau llawn a bodloni’r her o ymateb i fwy o bwerau, byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael a bod staff cymorth yr Aelodau a staff y Cynulliad yn bodloni’r safonau proffesiynol uchaf wrth gyflawni eu swyddogaethau.


Rydym yn cynnig cyfleusterau a chyfleoedd rhagorol i’n staff, fel y gwelir o’r statws aur Buddsoddwyr mewn Pobl a ddyfarnwyd i ni, ond mae ffyrdd o wella ar hyn. Byddwn yn ymestyn datblygiad ymhellach, yn hybu’r Cynulliad fel lle gwych i weithio ac yn cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth i grwpiau o bobl sydd o dan anfantais.

## Crynodeb Ariannol – Adnoddau Comisiwn y Cynulliad

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn arwain Bwrdd Rheoli sy'n cynnwys y tri Chyfarwyddwr ac wyth pennaeth y gwahanol feysydd gwasanaeth o fewn y Cynulliad. Caiff y gwasanaethau eu darparu gan amrywiaeth o staff y Cynulliad a nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu caffael drwy gontractau. Mae cyllideb y Comisiwn hefyd yn ariannu costau rhedeg adeiladau nodweddol y Senedd a'r Pierhead a swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd (Tŷ Hywel) a Bae Colwyn. Gellir cael gwybodaeth bellach am wasanaethau'r Cynulliad ar wefan y Cynulliad [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org).

Ceir rhestr isod o'r ffordd y caiff yr adnoddau eu defnyddio.



Yn benodol, caiff y newidiadau sy'n symud o gyllideb 2011-12 o £44.7 miliwn i gyllideb 2012-13 o £47.6 miliwn eu nodi yn Nhabl 2.

Tabl 2 Newidiadau Comisiwn y Cynulliad i'r gyllideb o gymharu â 2011-12 £000s

| | Cyllideb 2011-12 | Cynnydd Anochel | Arbedion | Buddsoddi yn y Pedwerydd Cynulliad | Cyllideb 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau'r Cynulliad:** | | | | | |
| Staff y Cynulliad | 14,624 | 459 | | 468 | 15,551 |
| Gwariant sefydlog | 7,582 | | | | 8,281 |
| - Cynnydd yn y rhent | | 500 | | | |
| - Addasiad chwyddiant | | 199 | | | |
| Dibrisiad | 3,254 | 646 | | | 3,900 |
| Gwariant yn ôl disgresiwn | 4,597 | | (837) | | 3,760 |
| Rhaglen fuddsoddi | 1,116 | | | 981 | 2,097 |
| Wrth gefn | 500 | | | | 500 |
| **Bwrdd Taliadau - Aelodau'r Cynulliad:** | | | | | |
| Cyflog, swyddfa a chostau eraill | 6,734 | | | | 6,900 |
| - Addasiad blwyddyn lawn | | 166 | | | |
| Cyflog staff cymorth | 6,300 | 300 | | | 6,600 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sydd eu hangen** | **44,707** | **2,071** | **(837)** | **1,449** | **47,589** |
| | | 5% | (2%) | 3% | 6% |
| Darpariaeth bensiwn Aelodau'r Cynulliad | 500 | | | | 500 |

## Arbedion gweithredu

Wrth ddarparu cyllideb 2012-13, mae'r Comisiwn wedi nodi arbedion o £0.8 miliwn (2%). Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o newid prosesau ac o drafod contractau. Mae hyn yn golygu y bydd y Comisiwn yn cael budd o hyn yn y dyfodol. Mae'r gyllideb yn rhagweld, hefyd, y bydd arbebion yn deillio o drosiant staff a gwella prosesau. Mae'r Comisiwn eisoes wedi cynnal cyfres o sesiynau herio allanol gan ddefnyddio'i gynghorwyr annibynnol ac arbenigwyr o sefydliadau Seneddol eraill. Mae'r heriau hyn yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau ac at ffyrdd y gall y Comisiwn ddarparu ei wasanaethau mewn ffordd fwy effeithiol, sy'n llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ar hyn o bryd.

Mae Tabl 3 yn cynnig gwybodaeth bellach am arbedion 2012-13.

| ***Tabl 3 Arbedion Gweithredu 2012-13*** | | ***£000s*** |
|---|---|---|
| *Arbedion cylchol* | | |
| Newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau: | | |
| TGCh, Gwefan a Darlledu | (195) | |
| Arlwyo | (27) | |
| Cyngor arbenigol - amgylcheddol | (20) | |
| Newidiadau'n deillio o drafod contractau | | |
| Rhentu llungopïydd | (20) | |
| Rheoli'r gyflogres | (5) | |
| Newidiadau'n deillio o lai o angen | | |
| Marchnata a chyhoeddusrwydd | (75) | |
| Cyfleustodau | (24) | |
| Post a chludiant | (5) | |
| Cost a symudwyd i'r Gronfa Gyfunol (Comisiynydd Safonau) | (26) | (397) |
| *Arbedion anghylchol* | | |
| Adennill costau cynyddol – parcio ceir | (15) | |
| Costau'r agoriad swyddogol | (51) | |
| Mân ddiwygiadau (Papur; Lletygarwch, Teithio a chynhaliaeth) | (4) | (70) |
| *Arbedion arfaethedig – arbedion a ragwelir y gellir eu cyfalwni yn ystod 2012-13* | | (370) |
| Mae'r ffynonellau yn cynnwys rheoli swyddi gwag, trafod contractau, ac ati) | | |
| *Fel yn Nhabl 2 - arbedion* | | (837) |

Mae'r arbedion hyn yn cyfateb i'r lefel o gronfeydd buddsoddi newydd y gwnaed cais amdanynt a bydd cyfanswm y symiau hyn yn darparu amrywiaeth o welliannau i'r Comisiwn. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn Nhabl 4 – Buddsoddi yn y Pedwerydd Cynulliad.

| ***Tabl 4*** | ***Buddsoddi yn y Pedwerydd Cynulliad*** | | ***£000s*** |
|---|---|---|---|
| *Staff y Cynulliad- mentrau newydd* | | | |
| | Cryfhau'r cymorth i fusnes ffurfiol y Cynulliad | 295 | |
| | Cynllun prentisiaeth | 115 | |
| | Gwella'r profiad i ymwelwyr | 33 | |
| | Gwella gwaith archwilio | 25 | |
| | *Fel Tabl 2 – staff gwasanaethau'r Cynulliad* | | *468* |
| *Cronfa ailstrwythuro* | | | 500 |
| | Darpariaeth ar gyfer cynllun diswyddo gwirfoddol; newidiadau sefydliadol a gwella capasiti proffesiynol | | |
| *Gwariant gweithredu gwasanaeth - cynnydd* | | | |
| | Contract yr Heddlu | 150 | |
| | Codi cynnal a chadw TGCh – buddsoddi mewn system newydd | 90 | |
| | Mwy o gymorth i ddarlleu y tu allan i Gaerdydd | 50 | |
| | Hyfforddiant staff ac iechyd | 44 | |
| | Gwisgoedd i'r staff Cyswllt Cyntaf | 21 | |
| | Digwyddiadau newydd a marchnata | 20 | |
| | Cyllid i bwyllgorau ddefnyddio arbenigwyr/cynghorwyr a chyfarfod i ffwrdd | 18 | |
| | Contract glanhau | 17 | |
| | Mwy o gymorth i'r Gwasanaethau Cyfreithiol | 16 | |
| | Addasiadau cyfrifyddu ac eitemau amrywiol | 55 | |
| | | | 481 |
| | *Fel Tabl 2 – rhaglen fuddsoddi* | | *981* |
| | *Total per Table 2* | | *1,449* |

***Rhaglen fuddsoddi pum mlynedd:***
*Ynghyd â'r symiau uchod, bydd cronfa ddatblygu o £1.1 miliwn ar gael yn 2012-13. Amcangyfrifir y bydd y gronfa'n £1.9 miliwn ar gyfer 2013-14 ac yn £1.3 miliwn ar gyfer 2014-15. Bydd y rhaglen yn darparu amrywiaeth o ddatblygiadau, er enghraifft:*

Gwella'r cymorth i bwyllgorau
Systemau seneddol - Clyweledol, Medialon, Vision 2014
Buddsoddi mewn cyfathrebu - Senedd tv; archifo; darlledu
Gwasanaethau proffesiynoli – buddsoddi mewn sgiliau a gallu
Cynaliadwyedd – adeiladu gwelliannau
Adeiladu gwelliannau – gwella profiadau i ymwelwyr / gwell cyfleusterau i ddigwyddiadau
Adnewyddu systemau corfforaethol – Adnoddau Dynol / Y Gyflogres / Cyllid
Strategaeth TGCh – daw'r contract presennol i ben yn 2014
Rhaglen dreigl TGCh

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyflogau
a chostau eraill yr Aelodau

## Y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyflogau a chostau eraill yr Aelodau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau o ran cyflogau a chostau eraill Aelodau'r Cynulliad. Sefydlwyd y Bwrdd gan ddeddfwriaeth y Cynulliad yn 2010. Mae'r Bwrdd yn hollol annibynnol ar y Cynulliad, felly nid oes gan yr Aelodau unrhyw ran uniongyrchol i'w chwarae wrth bennu eu cyflogau eu hunain, cyflogau eu staff na'r swm y gellir ei ad-dalu am swyddfeydd a chostau eraill. Caiff penderfyniadau'r Bwrdd eu cyhoeddi ym Mhenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n barthnasol iddo a, drwy statud, cyfrifoldeb y Comisiwn yw sicrhau'r cyllid angenrheidiol i dalu'r costau sy'n deillio o'r Penderfyniad.

Mae'r Bwrdd wedi pennu cyflog sylfaenol o £53,852 i Aelodau'r Cynulliad, ac wedi'i rewi ar y swm hwnnw am y pedair blynedd nesaf, ynghyd â'r lwfansau ar gyfer swydd ddeiliaid. Mae'r Bwrdd, hefyd, wedi adolygu ac wedi diwygio cymhwysedd rhai costau sy'n gysylltiedig â chostau swyddfa a chostau eraill. Dros y pedair blynedd nesaf caiff yr arbedion eu cyfrif fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| –rhewi cyflogau | £1.500 miliwn; |
| –rhewi lwfansau swydd ddeiliaid | £0.428 miliwn; |
| –costau swyddfa a chostau eraill | £0.160 miliwn |

Fel y nodir yn y Penderfyniad, gall Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio costau swyddfa a chostau eraill i dalu am y canlynol:

–cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;


–cyflogau a chostau teithio staff cymorth;

–llety preswyl;

–costau teithio angenrheidiol wrth ymgymryd â'u dyletswyddau; a

–chymorth i grwpiau trawsbleidiol.

Dangosir y gwahaniaethau yn y canrannau ar gyfer y lwfansau hyn yn y graff isod.




Cyfanswm costau cyflogau'r Aelodau, y staff cymorth a'r costau swyddfa fydd £13.5 miliwn yn 2012-13 o gymharu â £13.0 miliwn yn 2011-12. Mae hyn yn adlewyrchu'r 12 mis llawn o gyflog a lwfansau sy'n daladwy i bob Aelod Cynulliad. Yn 2011-12, cafodd y Cynulliad ei ddiddymu am chwe wythnos, gan arwain at daliadau cyflogau a lwfansau is yn ystod y flwyddyn etholiadol honno. Mae costau ychwanegol o £0.5 miliwn yn deillio o addasiadau cyfrifyddu o gynllun pensiwn yr Aelodau. Caiff y tâl hwn ei adlewyrchu yn y gyllideb AME (Gwariant a reolir yn flynyddol), a ni ddisgwylir iddo newid o'r £0.5 miliwn yn 2011-12.

## Cwmpas cyllideb Comisiwn y Cynulliad

1. Caiff y cyflwyniad hwn ar y gyllideb ei osod yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 20 y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cynorthwyo i lunio'r cynnig Cyllideb Blynyddol sy'n ofynnol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn cynnwys y gofynion adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013 a symiau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd dilynol.

2. Bydd y Cynnig Cyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion hynny yn hytrach na chael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r swm o arian fydd angen ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru i fodloni'r symiau net a ragwelir y bydd angen eu talu gan y Comisiwn.

3. Caiff Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-13, i ddiwallu'r gofynion hyn, eu nodi yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5** **£000**

| | |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn cysylltiad â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | 34,339 |
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â phenderfynidau'r Bwrdd Taliadau. | 13,500 |
| *Cyfanswm yr adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus.* | *47,839* |
| Gwariant a reolir yn flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â darpariaeth bensiwn Aelodau'r Cynulliad. | 500 |

| | |
|---|---|
| Cronni adnoddau ar gyfer eu cadw, yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br>- werthu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio ar brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>- incwm o rent; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl ac incwm o werthu nwyddau masnachol neu wasanaethau eraill a gaiff eu darparu i'r cyhoedd neu i eraill am gostau gweinyddol y Cynulliad. | 250 |
| Swm i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r costau a ragwelir fydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a'r dibenion uchod, llai'r derbynebion y gellir eu cadw a'r TAW adferadwy. | 44,439 |

4. Mae Tabl 6 isod yn cysoni'r gofynion adnoddau net â swm yr arian sydd angen ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Tabl 6 GOFYNION ARIANNOL**

**£000s**

| | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|
| Gofynion Refeniw Net yr Aelodau | 13,500 | 13,700 | 13,900 |
| Gofynion Refeniw Net y Comisiwn[1] | 33,089 | 34,068 | 34,607 |
| Gofynion Cyfalaf Net | 1,000 | 1,850 | 1,311 |
| Darpariaeth bensiwn Aelodau'r Cynulliad | 500 | 500 | 500 |
| *Addasiadau:* | | | |
| Dibrisiad | (3,900) | (4,000) | (4,400) |
| Symudiadau mewn darpariaethau | (500) | (500) | (500) |
| Symudiadau mewn dyledwyr a chredydwyr | 500 | 0 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 250 | | |
| **Gofynion arian net i'w tynnu o Gronfa Gyfunol Cymru** | 44,439 | 45,618 | 45,418 |

[1] Incwm Cronnol tybiedig o £0.250 miliwn y flwyddyn

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Amcangyfrif ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2012/13 ac Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2011/12

## 1. Cefndir o'r amcangyfrif hwn

1.1 Cyflwynaf amcangyfrif y gyllideb hon yn unol â pharagraff 15 Atodlen 1 Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n nodi'r adnoddau angenrheidiol er mwyn i mi gyflawni fy swyddogaethau statudol (ar wahân i'm cyflog, fy nghostau pensiwn ac Yswiriant Gwladol, sy'n gost uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid ydynt yn rhan o'r amcangyfrif hwn. Fodd bynnag, cânt eu cofnodi yn fy Nghyfrifon Blynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyfanswm costau rhedeg y swyddfa.

1.2 Dyma'r tro cyntaf i mi gyflwyno fy amcangyfrifon gerbron y Pedwerydd Cynulliad. Dan Bortffolios a Chyfrifoldeb y Pwyllgor yn y Pedwerydd Cynulliad, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am ystyried gwaith y swyddfa, tra mae'r Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am ystyried cyflwyniad yr amcangyfrif hwn. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn ymwneud yn benodol â'r materion hynny sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Cyllid.

1.3 Wrth baratoi'r cyflwyniad hwn, rwyf wedi ystyried cyngor Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Pwyllgor Archwilio Cymru. Mae'r Pwyllgor hwnnw'n parhau i gael ei gadeirio'n annibynnol gan Laurie Pavelin, CBE, FCA, sydd â phrofiad helaeth a gwybodaeth fanwl ym maes cyllid a chyfrifyddu yn y sector cyhoeddus. Mae'r Athro Margaret Griffiths yn parhau fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor eleni. Mae ei gwybodaeth am y system gyfreithiol yng Nghymru a'i phrofiad cyffredinol o faterion sy'n ymwneud â gwaith yr Ombwdsmon yn gyfraniad pwysig at y Pwyllgor Archwilio.

## 2. Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.1 Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwy'n ystyried cwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod wedi dioddef cam neu galedi drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff yn fy awdurdodaeth. Mae'r awdurdodaeth honno'n cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- a Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyrff y mae'n eu noddi.

2.2 Eleni, rwyf wedi lansio'r gwasanaeth cyfeirio newydd Cwynion Cymru – gwasanaeth dros y ffôn ac ar y we, sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n dymuno cwyno am ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus ond nad ydynt yn gwybod sut mae gwneud hynny, i gyflwyno eu cwyn i'r sefydliad hwnnw (mae hyn hefyd yn cynnwys cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y DU pan nad yw'r gwasanaethau wedi'u datganoli). Rwyf hefyd yn ystyried cwynion sy'n honni bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri eu cod ymddygiad.

## 3. Perfformiad ariannol

3.1 Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor fod fy archwilwyr mewnol (RSM Tenon) wedi adolygu fy nhrefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn annibynnol ac maent yn effeithiol yn ôl yr asesiad. Nododd eu Hadroddiad Blynyddol:

> "rydym yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i gynnal i'n galluogi i ddod i gasgliad rhesymol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniant Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben am 31 Mawrth 2011, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, mae ein barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth (ar sail y drefn goleuadau traffig) fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraethu | Digonol ac effeithiol | Gwyrdd |
| Rheoli Risg | Digonol ac effeithiol | Gwyrdd |
| Rheolaeth | Digonol ac effeithiol | Gwyrdd" |

3.2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar gyfer fy adroddiadau ar gyfer y flwyddyn 2010-11, yn yr un modd â'r holl flynyddoedd blaenorol.

3.3 Rwy'n gweithio yn unol â'r egwyddor y dylai costau'r swyddfa fod yn llai na 5% o gyfanswm y gwariant. Mae hyn wedi'i gyflawni bob amser ers sefydlu'r swyddfa dan Orchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 .

3.4 Rydym yn prosesu 99% o'n taliadau i gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod i dderbyn yr anfonebau yn fy swyddfa. Caiff taliadau eu gwneud ymhen 10 diwrnod gwaith mewn llawer o achosion.

3.5 Mae'r cyflawniadau hyn yn gyson â'r safonau uchel o ran rheolaeth ariannol sydd wedi bod ar waith ers creu'r sefydliad.

## 4. Effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd

4.1 **Canlyniadau 2010/11** – Rwyf eisoes wedi sôn wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy'r Pwyllgor Cyllid ac yn fy Adroddiadau Blynyddol, am fy mhryder ynghylch yr ôl-groniad o achosion o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cwynion mae fy swyddfa wedi'u cael ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2006. Rydym wedi ymdrechu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i fynd i'r afael â hyn gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i fy swyddfa. Un o'r elfennau allweddol oedd creu'r Tîm Cyngor ar Gwynion er mwyn delio ag ymholiadau cychwynnol i'r swyddfa yn fwy effeithiol, a gyda'r camau cynnar y broses ymdrin â chwynion. Rwyf hefyd wedi symleiddio'r cam ymchwilio. Mae'r camau hyn, ynghyd ag ymdrechion sylweddol fy staff, wedi arwain at gyflawniadau arwyddocaol yn ystod 2010/11. Mae'r canlyniadau canlynol yn arwyddocaol yng nghyswllt fy ngwasanaethau o ran ymdrin â chwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus:

- cawsom 1,127 o ymholiadau, cynnydd o 49% er 2009/10
- cawsom 1,425 o gwynion newydd, cynnydd o 3% er 2009/10
- cawsom 120 o atebion sydyn/setliadau gwirfoddol, cynnydd o 33% er 2009/10
- cawsom 315 o adroddiadau ymchwiliad, cynnydd o 54% er 2009/10
- fe wnaethom gau 1,634 o achosion, cynnydd o 13% er 2009/10
- 295 oedd nifer yr achosion ar y gweill ar 31 Mawrth 2011, gostyngiad o 48% er 2009/10
- nid oedd gennym archwiliadau hŷn na 12 mis ar agor ar 31 Mawrth 2011.

4.2 **Sefyllfa bresennol 2011/12** - Mae'r cynnydd yn nifer yr ymholiadau a'r cwynion mae fy swyddfa wedi'u derbyn wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyfredol. Gan gymharu'r pum mis cyntaf (h.y. Ebrill i Awst) eleni, â'r un cyfnod yn 2010/11:

- cawsom gynnydd o 73% yn nifer yr ymholiadau (589 o'i gymharu â 340)
- cawsom gynnydd o 7% yn nifer y cwynion (788 o'i gymharu â 739).

Nodwch fod cwynion sy'n ymwneud ag iechyd yn gyfrifol am 30% o faich achosion cwynion y corff cyhoeddus, o'i gymharu â'r sefyllfa gyffredinol o 25% yn 2010/11. Felly mae'n ymddangos mai'r newidiadau i'r trefniadau unioni ym maes iechyd sy'n gyfrifol am y cwynion ychwanegol, lle mae'r holl adolygiadau annibynnol a oedd yn cyrraedd fy swyddfa bellach yn dechrau dod ataf i.

4.3 **Adnoddau staff** – Cafodd y Pwyllgor Cyllid wybod y llynedd y byddai'n rhaid i mi gymryd camau i leihau fy staff o ganlyniad i lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'm swyddfa ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2011/12). Deuthum i'r casgliad y byddai'n rhaid i mi leihau 8.5% o swyddi (gweithwyr cyfartal ag amser llawn). Rwyf wedi gwneud hyn. Cafodd ei gyflawni drwy ad-drefnu. Bu'n rhaid i mi wneud newidiadau ar y lefel rheoli a rhoi trefniadau ar waith er mwyn delio â'r effeithiau yn sgil hynny - er enghraifft, lleihau nifer y timau archwilio o dri i ddau. Yn benodol, cafodd pum swydd eu dileu: un Cyfarwyddwr (o ddau); dwy swydd Prif Ymchwilydd a dau Swyddog Cefnogi Gwaith Achos. Y tu hwnt i hyn, mae gennyf bolisi ar hyn o bryd i beidio â llenwi swyddi gwag oni bai y gellir llunio achos busnes cadarn ynghylch pam y dylid llenwi'r swydd.

4.4 **Cynghorwyr clinigol** – Rwy'n defnyddio cynghorwyr clinigol a chanddynt arbenigedd mewn amryw o feysydd mewn proffesiynau iechyd i'm helpu i ystyried achosion sy'n ymwneud ag iechyd. Cyn hyn, roeddwn yn dibynnu ar gynghorwyr a oedd yn gysylltiedig â threfniant â swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) ac roedd yn rhaid i mi ailgodi tâl ar y swyddfa hon. Yn ddiweddar fodd bynnag, rwyf wedi cynyddu nifer y cynghorwyr clinigol a'r amrywiaeth ohonynt y gallaf ymgysylltu â nhw'n uniongyrchol. Bydd hyn yn lleihau nifer yr achosion lle mae ffeiliau wedi cael eu hanfon i swyddfa'r PHSO yn Llundain neu ym Manceinion. Nid yn unig bydd hyn yn arwain at lai o gostau, ond bydd hefyd yn galluogi adolygiad mwy prydlon o achosion.

4.5 **Enghreifftiau eraill o effeithlonrwydd** – Mae adnoddau staff yn gyfrifol am swmp y gwariant yn fy swyddfa ac mae'r rhan fwyaf o gostau eraill yn sefydlog ac yn anodd eu rheoli yn y tymor byr a chanolig (e.e. rhentu swyddfa). Fodd bynnag, mae'r meysydd hynny mae gennym rywfaint o reolaeth drostynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yng nghyswllt sicrhau'r gwerth gorau. Er enghraifft:

(a) Teithio a llety – caiff trefniadau eu gwneud yn ganolog drwy dîm gwasanaethau corfforaethol y swyddfa. Mae hyn yn sicrhau y gellir cael y cyfraddau mwyaf cost effeithiol. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, trenau dosbarth safonol a ddefnyddir ac rydym yn archebu tocynnau ymlaen llaw er mwyn cael y costau rhataf posibl. Rydym hefyd wedi cymryd camau megis cael cerdyn Oyster ar gyfer teithio yn ardal Llundain, sydd wedi arwain at gostau is o'i gymharu â phrynu tocynnau diwrnod.

(b) Caffael – o ganlyniad i gyfyngiadau dan Orchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, nid yw'n bosibl bod yn gwmni ar gyfer trefniadau contractiol gyda chorff yn fy awdurdodaeth. Fodd bynnag, rwy'n chwilio am gyfleoedd ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth (CLA) â sefydliadau eraill lle bo hynny'n bosibl. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y cytundeb â'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ar gyfer ymgysylltu â chynghorwyr clinigol, ac mae gennyf hefyd CLA ar waith i gael cyngor ar adnoddau dynol. Hefyd, pan fydd swydd wag yn codi, ac fy mod o'r farn ei bod yn hollbwysig ei

llenwi, erbyn hyn, rydym yn ymgymryd â'r broses recriwtio ein hunain, yn hytrach nag ymgysylltu ag asiantaeth gyflogi i wneud hyn ar fy rhan (hyd at y cam llunio rhestr fer) fel yr oedd yn arfer digwydd yn y gorffennol.

(c) Adnoddau'r llyfrgell – Mae natur y gwaith archwilio mae fy swyddfa yn ei gyflawni yn golygu ei bod yn hollbwysig bod deunydd cyfeirio cynhwysfawr a diweddar ar gael i ni, yn enwedig yng nghyswllt sail gyfreithiol y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y cyrff yn fy awdurdodaeth. Mae adolygiad diweddar a gyflawnwyd wedi golygu ein bod wedi gallu arbed costau drwy gael gwared ar danysgrifiadau ar gyfer deunyddiau copi papur a'u disodli â gwasanaethau data electronig.

## 5. Y tair blynedd nesaf

5.1 Yn ystod y tair blynedd nesaf, byddwn yn ystyried datblygu gwaith y gwasanaeth Cwynion Cymru sydd newydd ei sefydlu ymhellach, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol ychwanegol o gwynion sy'n ymwneud ag iechyd sydd bellach yn cyrraedd fy swyddfa. Byddwn yn gwneud hyn gyda'r bwriad i wireddu'n llawn yr enillion effeithlonrwydd o'r trefniadau newydd er mwyn ymdopi â lefel y cwynion a dderbynnir gyda llai o aelodau staff na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

5.2 Mae'n rhaid i ni fod yn realistig ac yn ystyriol o'r hyn y gellir ei gyflawni gyda llai o staff. Er nad yw'n syndod, o safbwynt gweithredu, mae'r cynnydd parhaus yn nifer y cwynion rwy'n eu derbyn yn achosi pryder i mi. Yn ddieithriad, cwynion sy'n ymwneud ag iechyd yw'r rhai mwyaf cymhleth a'r rhai sy'n defnyddio'r nifer mwyaf o adnoddau i'w harchwilio. Dylid rhoi llawer o ystyriaeth i'r ffaith bod cwynion sy'n ymwneud ag iechyd yn 30% o faich gwaith cwynion am gyrff cyhoeddus ac y gallai godi eto. Rwy'n benderfynol y bydd ein hymdrechion i ddarparu gwasanaeth ymdrin â chwynion o safon uchel yn parhau. Fodd bynnag, ar sail amcangyfrif y gyllideb sy'n cael ei chyflwyno ar gyfer 2012/13, os bydd y duedd hon i gynyddu yn parhau, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i mi adolygu'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penderfynu p'un ai a ddylid archwilio'r gŵyn ymhellach ai peidio.

5.3 Rydym hefyd yn cwrdd ag effaith chwyddiant mewn meysydd megis costau ynni a theithio ac felly nid ydym yn gofyn am gyllid ychwanegol yn hyn o beth.

5.4 Ac ystyried y pwysau sylweddol ar fy ngwasanaeth, rwyf wedi caniatáu ar gyfer cynnydd o 1.5% yn fy amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2013/14 (sydd wedi'i ddal ar gyfer 2014/15), sy'n unol â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant lle bydd Bloc Cymru yn cael cynnydd o 1.5% yn yr un modd.

## 6. Cais ychwanegol am adnoddau yn 2011/12: eitem eithriadol – pensiynau

6.1 Dan Orchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae fy staff yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Fodd bynnag, pan gafodd swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei sefydlu yn 2006, roedd gan nifer o aelodau o staff a oedd yn arfer cael eu cyflogi gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru hawl i aros yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ers hynny, mae gan y cynllun sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerdydd ddiffyg sylweddol. Y rheswm am hyn yw oherwydd y cynnydd mewn disgwyliad oes sy'n effeithio ar ymrwymiadau'r cynllun pensiwn tra mae ei asedau wedi gostwng o ganlyniad i'r gostyngiadau yng ngwerth ei fuddsoddiadau a chyfraddau enillion is.

6.2 Er bod y diffyg hwn yn effeithio ar bob sefydliad sy'n aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gall sefydliadau eraill sy'n aelodau wasgaru cost adfer y diffyg dros 22 o flynyddoedd. O ran fy swyddfa, sydd â nifer fach o staff yn perthyn i'r cynllun hwnnw a dim aelodau newydd er 2006, nid oes modd gwasgaru'r gost ac mae'n rhaid i mi glirio'r diffyg erbyn yr amser pan na fydd unrhyw aelodau gweithredol (rhywun sy'n talu cyfraniadau i'r cynllun). Ar sail y disgwyliadau cyfredol o ran staff yn ymddeol, disgwylir i hyn ddigwydd yn y flwyddyn ariannol 2017/18).

6.3 Fel y nodwyd yn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2010/11, mae'r diffyg yn £1.565m ac rwyf wedi trefnu bod y gweinyddwyr pensiynau yn gwneud chwe thaliad blynyddol rhwng 2012/13 a 2017/18 er mwyn clirio'r diffyg. Fodd bynnag, dan y rheolau cyfrifyddu adnoddau, rwyf wedi fy nghynghori y dylwn ddarparu ar gyfer y gost lawn yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Felly rwyf wedi gofyn i Lywodraeth y Cynulliad gynnwys cais ychwanegol am adnoddau ar gyfer y swm hwnnw yng nghynnig y gyllideb atodol ar gyfer 2011/12. Yr wyf hefyd wedi cael fy nghynghori y disgwylir i'r amcangyfrif atodol hwn gael ei drin fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol ac na fydd yn cael effaith negyddol ar Floc Cymru. Gan nad oes yn rhaid i mi wneud unrhyw daliadau arian parod tan 2012/13, ni fydd swm y cyllid y bydd ei angen arnaf gan Gronfa Gyfunol Cymru yn newid yn 2011/12.

6.4 Mae'r diffyg wedi codi o ffactorau tu hwnt i'm rheolaeth, ac nid oes modd dod o hyd i'r arian yn y cyllid cyfredol heb wneud toriadau mawr i wasanaethau. Fel y nodir uchod, mae cyfran fwyaf costau'r swyddfa yn gysylltiedig â chyflogau ac mae nifer y staff eisoes wedi cael ei leihau o bum swydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddai unrhyw leihad arall yn nifer swyddi staff yn golygu na fyddai modd i mi gyflawni fy nyletswyddau dan Orchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**28 Medi 2011**

| Atodiad – Amcangyfrifon 2012/13 |
|---|

*****************************************************************************************************

Atodiad

## Amcangyfrifon 2012/13

| | Gwirioneddol 2010/11 | Cyllideb 2011/12 | Amcangyfrif 2012/13 | Amcangyfrif 2013/14 | Amcangyfrif 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant** | | | | | |
| **Cyfalaf** | **461** | **15** | **14** | **13** | **13** |
| **Costau rhedeg** | | | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2,385 | 2,580 | 2,620 | 2,647 | 2,652 |
| Adeilad | 310 | 337 | 337 | 340 | 367 |
| Systemau cyfrifiadur a chefnogaeth | 200 | 105 | 90 | 85 | 105 |
| Costau swyddfa | 163 | 146 | 146 | 148 | 148 |
| Ffioedd cynghori | 313 | 300 | 300 | 323 | 350 |
| Cyfathrebu | 80 | 105 | 80 | 82 | 82 |
| Hyfforddi a recriwtio | 67 | 70 | 65 | 65 | 75 |
| Teithio a chynhaliaeth | 28 | 34 | 34 | 34 | 34 |
| Ffi archwilio | 25 | 20 | 20 | 22 | 22 |
| Costau tybiannol | 150 | 148 | 153 | 158 | 44 |
| **Cyfanswm costau rhedeg** | **3,721** | **3,845** | **3,845** | **3,904** | **3,879** |
| Incwm | -37 | -6 | -6 | -6 | -6 |
| **Gwariant refeniw net** | **3,684** | **3,839** | **3,839** | **3,898** | **3,873** |
| **Gofyniad Cyfanswm Adnoddau Net** | **4,145** | **3,854** | **3,853** | **3,911** | **3,886** |
| **Gofynion Adnoddau Atodol ar gyfer 2011-12** | | | | | |
| Diffyg ariannol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | | **1,565** | | | |
| **Cyfanswm gofyniad net adnoddau diwygiedig** | **4,145** | **5,419** | **3,853** | **3,911** | **3,886** |
| **Eitemau heb fod yn rhai arian parod** | **-110** | **-98** | **-97** | **-99** | **-77** |
| **Newidiadau yn y cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod** | **34** | **25** | **25** | **25** | **25** |
| **Newid i ddarpariaethau** | **36** | **-1,615** | **-50** | **-50** | **-47** |
| **Taliadau arian parod ar gyfer cael gwared ar bensiynau a darpariaethau eraill** | **-** | **-** | **231** | **242** | **254** |
| **Cyfanswm gofynion arian parod gan Gronfa Gyfunol Cymru** | **4,105** | **3,731** | **3,962** | **4,029** | **4,041** |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Finance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Committee Room 2 - Senedd** |
| Meeting date: | **Wednesday, 28 September 2011** |
| Meeting time: | **09:30 - 11:45** |

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
<insert link here>

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Jocelyn Davies (Chair)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Witnesses: | **Cllr Rodney Berman, WLGA Finance Spokesperson**<br>**Vanessa Phillips, Director of Resources, WLGA**<br>**Steve Thomas, WLGA** |
| Committee Staff: | **Tom Jackson (Clerk)**<br>**Daniel Collier (Deputy Clerk)**<br>**Martin Jennings (Researcher)**<br>**Eleanor Roy (Researcher)**<br>**Susan Morgan (Legal Advisor)** |

### 1. Introduction and apologies

### 2. Draft budget motion 2012-2013

2.1 The Committee welcomed Jane Hutt AM, Minister for Finance; Andrew Jeffreys, Head of Strategic Budgeting; Jo Salway, Head of Budget Policy; and Jeff Andrews, Specialist Policy Adviser - Finance to the meeting.

2.2 The Committee scrutinised the Minister.

2.3 The Committee requested that the Clerk produce a report on its consideration of the Minister's proposals for amending the Welsh Government Annual Budget Motion.

## 3. Draft budget motion 2012-2013

3.1 The Committee welcomed Steve Thomas, Chief Executive, WLGA; Cllr Rodney Berman, WLGA Finance Spokesperson and Leader, Cardiff County Council; and Vanessa Phillips, Director of Resources WLGA.

3.2 The Committee questioned the witnesses.

**Action points:**

The Welsh Local Government Association agreed to provide:

- Further details on efficiency savings made by the Welsh Government's efficiency and innovation and invest to save programmes.
- Figures highlighting the level of reserves in place for local authorities and the implications of the reduction in those reserves.
- A note on how Cymorth and other specific grants within last year's local government settlement have helped reduce the administrative burden of hypothecated grants.
- A note on the outcome of the meeting between the WLGA and Welsh Fire and Rescue Services regarding the pension abatement service.

## 4. Members' consideration of evidence

4.1 The Committee considered the evidence provided by the witnesses.

## 5. Potential inquiry into devolution funding

5.1 The Committee discussed its potential inquiry into devolution funding.

## 6. Potential inquiry into effectiveness of European Structural Funding in Wales

6.1 The Committee discussed its potential inquiry into the effectiveness of European Structural Funds in Wales.

# Blaenraglen waith ddrafft y Pwyllgor Cyllid: Hydref 2011

## Dydd Mercher 28 Medi 2011 (09.30 – 11.30)

1. **Craffu ar y cynnig i ddiwygio cynnig cyllidebol Llywodraeth Cymru** (09.35 – 10.15)
   - Llywodraeth Cymru
     - Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid
     - Andrew Jeffreys, Pennaeth Cyllido Strategol
     - Jo Salway, Pennaeth Polisi Cyllidebol
     - Jeff Andrews, Cynghorydd Arbenigol Polisi, Cyllid

2. **Casglu gwybodaeth: pryderon rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau posibl cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-2013** (10.15-11.00)
   - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (10.15 – 11.00)
     - Cynghorydd Rodney Berman, Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyllid ac Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
     - Steve Thomas CBE, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
     - Vanessa Phillips, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

3. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod** (11.00-11.10)

4. **PREIFAT – Ymchwiliad posibl i ariannu datganoli**
   - Cyfle i'r Aelodau ystyried y papur cwmpasu (11.10 – 11.20)

5. **PREIFAT – Ymchwiliad posibl i effeithiolrwydd Ariannu Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru**
   - Cyfle i'r Aelodau ystyried y papur cwmpasu (11.20 – 11.30)

## Dydd Iau 6 Hydref 2011 (09.30 -11.30)

1. **Craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad** (9.35 – 10.30)
   - Comisiwn y Cynulliad
     - Angela Burns AC, y Comisiynydd dros gyllid a llywodraethiant
     - Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad,
     - Steve O' Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

2. **Craffu ar amcangyfrifon drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** (10.30-11.25)
   - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
     - Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu
- Malcolm MacDonald, Cynghorydd Cyllidebol.

3. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod** (11.25 – 11.30)

**Dydd Mercher 12 Hydref 2011 (9.30–11.30)**

**2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru**

- Llywodraeth Cymru (09.30 – 10.20)
  - Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (10.20 – 11.10)
  - Phil Fiander, Cyfarwyddwr Rhaglenni
  - Michelle Matheron, Uwch Swyddog Polisi

3 **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod** *(11.10 - 11.15)*

4 **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried yr adroddiad drafft ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad** (11.15 – 11.30)

**Dydd Iau 20 Hydref (09.30 – 11.30)**

1. **Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru**
   - Conffederasiwn GIG Cymru ac un o fyrddau iechyd y GIG i'w gadarnhau (09.35 – 10.15)
   - Tystion i'w cadarnhau (10.15 – 11.00)

2. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod** (11.00 – 11.15)

3. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried adroddiad drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar yr amcangyfrifon drafft ar gyfer Cymru** (11.15 – 11.30)

**Dydd Llun 31 Hydref 2011 (15.00 – 16.30)**

1. **Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru** (15.00 – 16.00)
   - Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid

2. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod (16.00 – 16.30)**

**Dydd Mercher 2 Tachwedd 2011 (09.30 – 11.30)**

1. **PREIFAT: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru** (9.30–11.30)

- Cyfle i'r Aelodau ystyried yr adroddiad drafft

*Dyddiad posibl – Dydd Llun 7 Tachwedd (15.00 – 16.00)*

1. **PREIFAT: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru** (15.00–16.00)
    - Cyfle i'r Aelodau ystyried yr adroddiad drafft ymhellach

*Bydd y cyfarfod ar 7 Tachwedd o bosibl yn cael ei ganslo os bydd y Pwyllgor yn cytuno ar adroddiad drafft ar y gyllideb yn y cyfarfod blaenorol ar 2 Tachwedd.*

**Dydd Mercher 16 Tachwedd (09.30 – 11.30)**

1. **Clywed tystiolaeth lafar ar gyfer ymchwiliad newydd y Pwyllgor** (09.30 – 11.25)
    - Tystion i'w cadarnhau

2. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod** (11.25 – 11.30)

**Dydd Mercher 30 Tachwedd (09.30 – 11.30)**

1. **Clywed tystiolaeth lafar ar gyfer ymchwiliad newydd y Pwyllgor** (09.30 – 11.25)
    - Tystion i'w cadarnhau

2. **PREIFAT – Cyfle i'r Aelodau ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod** (11.25 – 11.30)

**––––––––––––––––––––––––––––––––––Diwedd tymor yr Hydref–––––––––––––––––––––––––––––––––––––**